




Siapiau Siapus

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Cyflawni gweithred gydbwyso, ag amrywiol rannau'r corff yn cyffwrdd â'r llawr
- Dangos amrywiaeth o siapiau â'r corff wrth gyflawni gweithred gydbwyso
- Cyflawni gweithrediadau cydbwyso wyneb i waered, lle mae eu pen yn is na'u pen-ôl
- Cyflawni'r weithred gydbwyso gan gyfrif o leiaf "1 fanana, 2 fanana, 3 banana"
- Tynnu ffotograffau o'u hoff weithrediadau cydbwyso, a'u defnyddio i'w helpu i greu cyfres o dair gweithred gydbwyso



Adnoddau

- Marcwyr dros dro ar gyfer y dwylo a'r traed/marciau sialc
- Bagiau ffa
- Teganau meddal
- Ffotograffau

Cwestiynau

- Pa siapiau gallwch chi eu gwneud pan fyddwch yn cadw cydbwysedd ar eich bol?
- Sut gallwch chi sythtu eich coes wrth wneud hynny?
- Pa rannau mawr eraill o'r corff gallwch chi gadw cydbwysedd arnynt?
- Sut rydych chi'n teimlo pan fydd eich pen yn is na'ch pen-ôl?
- Pa weithred gydbwysu yw eich hoff un, a beth rydych chi'n ei hoffi amdani?

Geiriau allweddol

- Enwau rhannau'r corff, ymwybyddiaeth o'r corff
- Cadw cydbwysedd ar rannau mawr y corff – y bol, y cefn, y pen-ôl, yr ysgwyddau; cadw cydbwysedd ar rannau bach y corff – y dwylo, y traed, y penelinoedd, y pengliniau
- Cryf, llonydd, rhewi
- Mawr, bach, tal, llydan, cul, tenau, wedi cyrlio

Cyfleoedd i:

- ddatblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff
- adnabod ac enwi gwahanol rannau'r corff
- dangos gwell cydbwysedd a sgiliau cydsymud

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio yn eu 'swigod'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff?
- Yn adnabod ac yn enwi gwahanol rannau'r corff?
- Yn dangos gwell cydbwysedd a sgiliau cydsymud?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- greu siapiau/cyflawni gweithrediadau cydbwysu penodol – Cath Flin, Siâp Syth, Siâp Seren, Cadw Cydbwysedd ar un Droed. Dylid cyfeirio at y Cardiau Sgiliau Technegol i gael mwy o wybodaeth
- chwarae 'Mae Seimon yn dweud'
- disgrifio gweithred gydbwysu y gall plentyn arall roi cynnig arni, gan ddefnyddio iaith ynghylch safle

Anogwch y plentyn i:

- ganolbwyntio ar un weithred gydbwysu ar y tro
- canu caneuon â symudiadau i'w helpu i enwi rhannau'r corff
- copïo plentyn arall neu ymarferwr
- trafod pa weithrediadau cydbwysu allai fod hawsaf iddo'u cyflawni, a thrafod pa rannau o'r corff allai fod hawsaf iddo gadw cydbwysedd arnynt
- gweithio gyda phlentyn arall fel bod y naill yn helpu'r llall

Cyfleoedd campus

- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Fi fy hun a phethau byw eraill – adnabod gwahaniaethau rhyngddynt nhw a phlant eraill
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Fi fy hun a phethau nad ydyn nhw'n fyw – didoli ffotograffau i grwpiau yn ôl nodweddion syml, e.e. nifer y rhannau sy'n cyffwrdd â'r llawr, y siapiau a gaiff eu dal, ac ati
- Datblygu TGCh: creu a chyflwyno syniadau